

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Adroddiad Gwella Blynyddol

# Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru

Cyhoeddwyd: Ionawr 2012
Cyfeirnod y ddogfen: 135A2012



# Archwilydd Cyffredinol Cymru

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol ar y llywodraeth a chaiff ei benodi gan Ei Mawrhydi y Frenhines. Mae'n arwain Swyddfa Archwilio Cymru ac mae'n atebol i Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru am waith Swyddfa Archwilio Cymru.

Yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol Llywodraeth Cymru, y cyrff a noddir ganddi a'i chyrff cyhoeddus cysylltiedig, Comisiwn y Cynulliad a chyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru. Mae hefyd yn penodi archwilwyr allanol cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau unedol, yr heddlu, gwasanaethau prawf, awdurdodau tân ac achub, parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned. Mae archwilwyr penodedig yr Archwilydd Cyffredinol yn gyfrifol am gynnal archwiliadau blynyddol o'r rhan fwyaf o'r arian cyhoeddus a gaiff ei wario yng Nghymru, gan gynnwys y £15 biliwn a ddyfernir i Gymru'n flynyddol gan Senedd San Steffan. Mae Llywodraeth Cymru yn trosglwyddo bron £5.5 biliwn o'r arian hwn i lywodraeth leol ar ffurf grantiau cyffredinol a phenodol. Yn ei thro, mae llywodraeth leol yn codi £2.1 biliwn pellach drwy'r dreth gyngor ac ardrethi busnes.

Yn ogystal â chyflawni archwiliadau ariannol, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gyfrifol am archwilio sut mae cyrff cyhoeddus yn rheoli ac yn gwario arian cyhoeddus, gan gynnwys sicrhau gwerth am arian wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus. Nod Swyddfa Archwilio Cymru yw gwneud i arian cyhoeddus gyfrif, drwy hybu gwelliannau, fel y gall pobl Cymru gael budd o wasanaethau cyhoeddus atebol a reolir yn dda sy'n cynnig y

Cafodd Huw Vaughan Thomas, Archwilydd Cyffredinol Cymru, gymorth Lisa Williams, Jackie Joyce a chydweithwyr o dan arweiniad Alan Morris i gynnal yr Asesiad Gwella a llunio'r adroddiad hwn.

# Cynnwys


**Crynodeb a chynigion ar gyfer gwella** 4

**Adroddiad manwl**

Cyflwyniad 8

Mae'r Awdurdod wedi rhoi trefniadau ar waith i gyflawni gwelliant ac mae'n perfformio'n dda yn y meysydd y mae'n canolbwyntio arnynt ond nid yw'r trefniadau cynllunio, gwerthuso a chyflwyno adroddiadau ar berfformiad yn gadarn er bod camau'n cael eu cymryd i atgyfnerthu'r meysydd hyn 9

Mae'r Awdurdod yn datblygu ymhellach ei ddull o gynllunio ac mae ganddo drefniadau ar waith i gyflawni gwelliant 10

Mae'r Awdurdod wedi cyflawni llawer o'r camau a'r mentrau a gynlluniwyd ganddo ond mae Amcanion Gwella cyffredinol iawn yn ei gwneud yn anodd asesu cynnydd 17

Mae gan yr Awdurdod ddulliau o fonitro perfformiad ond mae angen iddo ddatblygu mesurau perfformiad priodol ymhellach a chyflwyno adroddiadau arnynt i'w alluogi i asesu a yw'r amcanion gwella wedi'u cyflawni 26

**Atodiadau**

**Atodiad 1**
Statws yr adroddiad hwn 29

**Atodiad 2**
Gwybodaeth ddefnyddiol am Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru 30

**Atodiad 3**
Llythyr Archwilio Blynyddol yr Archwilydd Penodedig at Aelodau Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru 32

**Atodiad 4**
Amcanion gwella Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru 34

# Adroddiad cryno

1 Bob blwyddyn, rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol gyflwyno adroddiad ar ba mor dda y mae cynghorau, awdurdodau tân ac achub a pharciau cenedlaethol Cymru yn cynllunio ar gyfer gwella ac yn darparu eu gwasanaethau. Gan ystyried gwaith Swyddfa Archwilio Cymru ac Arolygiaethau perthnasol yng Nghymru, mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno darlun o welliant dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae i'r adroddiad hwn dair prif adran sy'n cwmpasu'r ffordd y mae Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru (yr Awdurdod) yn cynllunio, darparu a gwerthuso gwelliant.

2 Ar y cyfan daeth yr Archwilydd Cyffredinol i'r casgliad fod yr Awdurdod wedi rhoi trefniadau ar waith i gyflawni gwelliant a'i fod yn perfformio'n dda yn y meysydd y mae'n canolbwyntio arnynt ond nad yw'r trefniadau cynllunio, gwerthuso a chyflwyno adroddiadau ar berfformiad yn gadarn er bod camau'n cael eu cymryd i atgyfnerthu'r meysydd hyn.

3 Canfuwyd bod yr Awdurdod yn datblygu ymhellach ei ddull o gynllunio a bod ganddo drefniadau ar waith i gyflawni gwelliant. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- mae'r Awdurdod yn atgyfnerthu ei drefniadau cynllunio ac yn ymateb i gynigion blaenorol ar gyfer gwella;
- mae gan yr Awdurdod ddull cadarn o reolaeth ariannol ond, o ystyried maint y newid sydd ei angen, mae angen trefniadau arweinyddiaeth clir a pharhaol;
- nid yw trefniadau rheoli gwybodaeth yn cefnogi gwelliant mewn ffordd gadarnhaol ac mae nifer o wendidau sylweddol;
- nid yw'r trefniadau cyfredol ar gyfer datblygu, defnyddio a chefnogi technoleg yn debygol o gefnogi gwelliant parhaus heb newidiadau sylweddol, y mae'r Awdurdod yn dechrau eu gwneud;
- mae'r Awdurdod yn bodloni ei rwymedigaethau statudol o ran Deddf yr Iaith Gymraeg.

4 Canfuwyd hefyd bod yr Awdurdod wedi cyflawni llawer o'r camau a'r mentrau a gynlluniwyd ganddo ond bod Amcanion Gwella cyffredinol iawn yn ei gwneud yn anodd asesu cynnydd. Daethom i'r casgliad hwn oherwydd:

- mae llawer o gamau gweithredu a mentrau wedi'u cyflawni i gefnogi ei feysydd ffocws ond mae diffyg eglurder ynghylch gweithgareddau a gynlluniwyd a sut y caiff cyflawniadau eu mesur yn golygu ei bod yn anodd asesu a gwerthuso cynnydd;
- mae'r Awdurdod yn helpu i osgoi damweiniau traffig ar y ffyrdd ond ymatebodd i fwy o danau er bod nifer y marwolaethau'n parhau'n isel a bod nifer yr anafiadau'n lleihau;
- mae'r Awdurdod wrthi'n datblygu ffyrdd mwy arloesol ac effeithlon o ymateb i ystod eang o ddigwyddiadau, ond mae lefelau uchel o absenoldeb oherwydd salwch yn peri pryder o hyd.

5 Yn olaf, mae'r adroddiad yn nodi ein barn ar hunanasesiad yr Awdurdod o'i berfformiad a'i drefniadau. Daethom i'r casgliad fod gan yr Awdurdod ddulliau o fonitro perfformiad ond bod angen iddo ddatblygu mesurau perfformiad priodol ymhellach a chyflwyno adroddiadau arnynt i'w alluogi i asesu a yw'r amcanion gwella wedi'u cyflawni.

6 Nid oes unrhyw argymhellion ffurfiol ond gwneir y cynigion canlynol ar gyfer gwella i'r Awdurdod er mwyn cefnogi gwelliannau:

# Cynigion ar gyfer gwella

| Cynigion ar gyfer gwella | |
|---|---|
| **C1** | Parhau i roi cynigion blaenorol ar gyfer gwella ar waith, gan gynnwys:<br>• Datblygu trefniadau rheoli perfformiad mewn perthynas â rheoli adeiladau.<br>• Adolygu'r ystod o systemau data a gwybodaeth am y rhesymau canlynol:<br>– fel bod gwell gwybodaeth ar gael i helpu i ddarparu gwasanaethau gweithredol a gwneud penderfyniadau e.e. proffiliau cymunedol;<br>– fel ei bod yn haws rhannu gwybodaeth â phartneriaid e.e. o ran cronfeydd data o safleoedd annomestig a Gwiriadau Diogelwch Tân yn y Cartref;<br>– gwella gwaith monitro perfformiad fel bod yr Awdurdod yn gwybod sut mae'n perfformio yn erbyn ei amcanion gwella a sut mae'n cymharu ag awdurdodau tân ac achub eraill.<br>• Datblygu'r amcanion gwella a'r mesurau perfformiad a chanlyniadau cysylltiedig sy'n ei alluogi i nodi effaith ei weithgarwch ar ei gymuned. |
| **C2** | Gweithredu meysydd ar gyfer gwella a nodwyd yn ein hadolygiad Rheoli Gwybodaeth. |
| **C3** | Gweithredu meysydd ar gyfer gwella a nodwyd yn ein hadolygiad o Dechnoleg. |
| **C4** | Mynd i'r afael â chywirdeb a chyflawnder materion sy'n ymwneud â data sy'n codi o'n harchwiliad o ddangosyddion perfformiad, yn arbennig mewn perthynas â data cywir ar gyfeiriadau, gweithdrefnau cadarnach ar ddiwedd y flwyddyn ar gyfer cau'r system cofnodi digwyddiadau ac, er mwyn gwella effeithlonrwydd yr archwiliad, dylai dogfennaeth a thystiolaeth fod ar gael yn hawdd i'w harchwilio. |

| Cynigion ar gyfer gwella | |
|---|---|
| **C5** | Er mwyn gallu monitro'r gwaith o gyflawni Amcanion Gwella a chanlyniadau cymunedol yn effeithiol:<br>• mae angen datblygu ymhellach drefniadau rheoli perfformiad i sicrhau bod gwybodaeth am reoli a mesurau perfformiad yn cael ei chasglu yn erbyn pob amcan gwella fel bod gan yr Awdurdod y dystiolaeth i fonitro'r gwaith o gyflawni camau gweithredu a hefyd i asesu a yw canlyniadau gwella wedi'u cyflawni ar gyfer dinasyddion/y cyhoedd;<br>• rhoi gweithdrefnau adrodd priodol ar waith, yn arbennig o ran amseru a strwythur trefniadau cyflwyno adroddiadau ar berfformiad i sicrhau bod Aelodau'n cael gwybodaeth amserol am berfformiad yn erbyn amcanion gwella a fydd yn eu galluogi i gymryd camau unioni yn gyflym os oes angen er mwyn adfer perfformiad. |
| **P6** | Cyhoeddi gwybodaeth am welliant yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru ac, yn benodol:<br>• sicrhau bod adroddiadau ar berfformiad yn cynnwys arfarniad beirniadol o farn yr Awdurdod ar ei berfformiad cyffredinol ac ar gyfer pob un o'i amcanion gwella mewn gwerthusiad cytbwys;<br>• disgrifio'r hyn y bydd yn ei wneud yn wahanol o ganlyniad i dangyflawni yn erbyn ei welliannau disgwyliedig;<br>• cyhoeddi'r holl ddangosyddion perfformiad cenedlaethol a'r rhai lleol perthnasol yn unol â chanllawiau cyfredol. |

# Adroddiad manwl



# Cyflwyniad

7 Paratowyd yr adroddiad hwn gan Swyddfa Archwilio Cymru ar ran yr Archwilydd Cyffredinol. Ar dudalen 2 ceir esboniad cryno o'r hyn y mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ei wneud.

8 O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol gyflwyno adroddiad bob blwyddyn ar ba mor dda y mae cynghorau, awdurdodau tân ac achub a pharciau cenedlaethol Cymru yn cynllunio ar gyfer gwella ac yn darparu eu gwasanaethau. Mae Atodiad 1 yn darparu rhagor o wybodaeth am bwerau a dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol o dan y Mesur. Mae'r *Adroddiad Gwella Blynyddol* yn rhoi darlun o'r hyn y mae pob cyngor neu awdurdod yng Nghymru yn ceisio ei gyflawni a sut mae'n gwneud hynny, gan ddefnyddio gwaith arolygiaethau eraill, gan gynnwys y Tîm Asesu Cymheiriaid Tân ac Achub[1] , lle y bo'n briodol. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn nodi'r cynnydd y mae'r Awdurdod wedi'i wneud ers i'r Archwilydd Cyffredinol gyhoeddi ei *Adroddiad Gwella Blynyddol* diwethaf, gan ystyried hunanasesiad yr Awdurdod ei hun.

9 Drwy'r Adroddiad, rydym yn nodi'r hyn y mae angen i'r Awdurdod ei wneud i wella ei wasanaethau. O ystyried yr ystod o wasanaethau a ddarperir a'r heriau sy'n wynebu'r Awdurdod, byddai'n anarferol pe na baem wedi dod o hyd i bethau y gellir eu gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol:

- argymell y dylai Gweinidogion Llywodraeth Cymru ymyrryd mewn rhyw ffordd;
- cynnal arolygiad arbennig a chyhoeddi'r adroddiad gan wneud argymhellion manwl;
- gwneud argymhellion ffurfiol ar gyfer gwella - os caiff argymhelliad ffurfiol ei wneud mae'n rhaid i'r Awdurdod ymateb yn gyhoeddus i'r argymhelliad hwnnw o fewn 30 diwrnod;
- gwneud cynigion ar gyfer gwella - os byddwn yn gwneud cynigion i'r Awdurdod, byddem yn disgwyl iddo weithredu arnynt a byddwn yn gwneud gwaith dilynol ar yr hyn sy'n digwydd.

10 Rydym am wybod a yw'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch ac a yw'n hawdd ei ddeall. Gallwch roi eich barn drwy anfon e-bost i info@wao.gov.uk neu drwy ysgrifennu atom yn 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd CF11 9LJ.

1 Cyflwynodd Llywodraeth Cymru drefniadau newydd ar gyfer asesu perfformiad gweithredol awdurdodau tân ac achub ym mis Hydref 2006. Mae'r broses asesu yn cynnwys cynnal hunanasesiad yn erbyn fframwaith a ddarperir yn ganolog ac adolygiad gan dîm asesu cymheiriaid yn cynnwys swyddogion o awdurdodau tân ac achub eraill.

## Mae'r Awdurdod wedi rhoi trefniadau ar waith i gyflawni gwelliant ac mae'n perfformio'n dda yn y meysydd y mae'n canolbwyntio arnynt ond nid yw'r trefniadau cynllunio, gwerthuso a chyflwyno adroddiadau ar berfformiad yn gadarn er bod camau'n cael eu cymryd i atgyfnerthu'r meysydd hyn

11 Mae'r adroddiad hwn yn nodi barn yr Archwilydd Cyffredinol ar berfformiad yr Awdurdod o ran cyflawni ei ddyletswydd statudol i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus. Cafodd y farn hon ei llywio gan waith Swyddfa Archwilio Cymru, KPMG LLP a'r Tîm Asesu Cymheiriaid Tân ac Achub.

12 Nid ydym yn cynnal adolygiad blynyddol cynhwysfawr o holl drefniadau na holl wasanaethau'r awdurdod. Canolbwyntiodd ein gwaith ar y prif amcanion y mae'r Awdurdod wedi'u pennu iddo'i hun ar gyfer blwyddyn archwiliad ariannol 2010-11. Mae'n adeiladu ar adborth ac adroddiadau archwilio blaenorol a gyflwynwyd i'r Awdurdod ac yn olrhain y cynnydd a wnaed gan yr Awdurdod o ran ymateb i ganfyddiadau archwiliadau blaenorol. Mae'r casgliadau yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar ein gwybodaeth gronnol a chyffredin a chanfyddiadau'r gwaith a gyflawnwyd eleni.

13 Mae ein casgliad cyffredinol yn adlewyrchu cynnydd yr Awdurdod o ran gwneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus a'r cynnydd y mae wedi'i wneud yn erbyn ei feysydd gwella allweddol a'i Amcanion Gwella.

14 Mae'n bwysig bod gan yr Awdurdod drefniadau cynllunio da ac effeithiol ar waith a'i fod yn deall faint o gynnydd a gwelliant y mae'n ei wneud. Canfuwyd bod yr Awdurdod yn atgyfnerthu trefniadau cynllunio ac er bod ganddo ddulliau o fonitro perfformiad mae angen iddo ddatblygu ymhellach fesurau priodol a fydd yn ei alluogi i asesu a yw amcanion gwella wedi'u cyflawni a chyflwyno adroddiadau ar hyn.

15 Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi pennu bod yr Awdurdod wedi cyflawni ei holl ddyletswyddau mewn perthynas â chyhoeddi gwybodaeth am welliant. Fodd bynnag, dylai'r Awdurdod sicrhau ei fod yn gweithredu'n fwy unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru; yn benodol i:

- sicrhau bod adroddiadau ar berfformiad yn cynnwys arfarniad beirniadol o farn yr Awdurdod ar ei berfformiad yn gyffredinol ac ar gyfer pob un o'i amcanion gwella;
- disgrifio'r hyn y bydd yn ei wneud yn wahanol o ganlyniad i dangyflawni yn erbyn ei welliannau disgwyliedig;
- cyhoeddi'r holl ddangosyddion perfformiad cenedlaethol a'r rhai lleol perthnasol yn unol â chanllawiau cyfredol.

# Mae'r Awdurdod yn datblygu ymhellach ei ddull o gynllunio ac mae ganddo drefniadau ar waith i gyflawni gwelliant

16 Mae'r adran hon o'r adroddiad yn nodi ein hasesiad o feysydd gwella allweddol yr Awdurdod ar gyfer 2010-11, sydd wedi'u rhestru yn Atodiad 4, a sut mae'r Awdurdod yn cynllunio ac yn rheoli ei fusnes i gynnal a gwella gwasanaethau. Mae'r adran hon o'r adroddiad hefyd yn tynnu sylw at ymateb yr Awdurdod i faterion a godwyd mewn adroddiadau blaenorol.

## Mae'r Awdurdod yn atgyfnerthu ei drefniadau cynllunio ac yn ymateb i gynigion blaenorol ar gyfer gwella

17 Nodwyd bod arweinwyr yr Awdurdod yn parhau i lywio newid a'u bod yn gwneud cynnydd o ran mynd i'r afael â meysydd i'w gwella yn llythyr *Diweddaru'r Asesiad Corfforaethol*, a gyflwynwyd i'r Awdurdod gan yr Archwilydd Cyffredinol ym mis Gorffennaf 2011. Hefyd, nododd y llythyr y dylid datblygu blaenoriaethau'r Awdurdod ar gyfer y cyfnod i ddod a gweithredu trefniadau priodol ar gyfer cynllunio'r gwaith o reoli asedau a datblygu ymhellach ei fframwaith rheoli perfformiad i sicrhau y gellir mesur amcanion gwella.

18 Yn ein *Hasesiad Corfforaethol Rhagarweiniol* (Awst 2010) cynigiwyd y dylai'r Awdurdod lunio Cynllun Rheoli Asedau. Bydd aelodau'n ystyried Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol cyntaf yr Awdurdod yn gynnar yn 2012. Lluniwyd y Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol o fewn cyd-destun cynlluniau strategol eraill gan gynnwys y Cynllun Ariannol Tymor Canolig a'r Cynllun Pum Mlynedd Corfforaethol. Disgwylir diweddariadau blynyddol ar gyfer y Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol a'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig. Mae'r Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol yn disgrifio'r broses gynllunio ar gyfer defnyddio tir, adeiladau, trafnidiaeth, TGCh ac asedau gweithredol mor effeithiol â phosibl. At hynny, mae cynlluniau rheoli asedau manylach yn cael eu llunio ar gyfer pob un o'r meysydd hyn ar hyn o bryd. Mae system rheoli asedau gyfrifiadurol i helpu gyda'r gwaith o reoli asedau'r Awdurdod yn fwy effeithiol wedi'i chynllunio ar gyfer dechrau 2012.

19 Mae'r Fforwm Gwella Gwasanaethau yn gyfrifol am nodi gwelliannau posibl mewn perfformiad ar gyfer y gwasanaeth a'r gymuned ynghyd â datblygu polisi. Mae'r grŵp hwn yn ystyried adroddiadau monitro cynnydd cyn iddynt gael eu hystyried gan y Grŵp Gweithredu Gwelliant mewn Gwasanaethau newydd, y Bwrdd Polisi a'r Pwyllgor Archwilio ac Adolygu Perfformiad.

20 Cyflwynodd yr Awdurdod y Grŵp Gweithredu Gwelliant mewn Gwasanaethau yn ystod 2011 er mwyn:

- monitro'r broses o weithredu cynigion gwella'r Awdurdod a nodwyd yn y Rhaglen Adolygu Gwasanaethau;
- sicrhau bod yr arbedion ariannol sy'n gysylltiedig â'r cynigion gwella hefyd yn cael eu cyflawni;
- atgyfnerthu trefniadau cynllunio a monitro busnes.

21 Mae'r Grŵp Gweithredu Gwelliant mewn Gwasanaethau yn cyfarfod bob pythefnos a dywedodd swyddogion wrthym ei fod yn darparu ffocws ar gyfer cyflawni effeithlonrwydd a nodwyd drwy fonitro'n

rheolaidd a chymryd camau unioni yn ôl yr angen. Rhoddir gwybodaeth am gynnydd i aelodau, a darparwyd y wybodaeth ddiweddaraf am y camau gweithredu sydd wedi'u cynllunio ar gyfer 2011-12 ym mis Hydref 2011. Byddwn yn gwneud gwaith dilynol ar y gwaith a wnaed gan y Grŵp Gweithredu Gwelliant mewn Gwasanaethau fel rhan o'r asesiad corfforaethol nesaf (Gwanwyn 2012).

22 Hefyd, gweithredodd yr Awdurdod system rheoli perfformiad newydd (Ffynnon) ym mis Ebrill 2011 ac mae wedi dechrau edrych ar ei ofynion gwybodaeth a sut y bydd yn gwneud y canlynol:

- egluro i ddinasyddion pa ganlyniadau y mae'n eu ceisio drwy ei gamau gweithredu;
- nodi'r mesurau y mae'n bwriadu eu defnyddio i asesu'r gwaith o gyflawni ei amcanion gwella;
- monitro cyflawniadau'n rheolaidd a chyflwyno adroddiadau arnynt yn erbyn amcanion gwella er mwyn sicrhau y gellir cymryd camau unioni yn gyflym yn ôl yr angen;
- defnyddio system Ffynnon i gofnodi a monitro cynnydd yn erbyn yr holl feysydd ffocws sydd wedi'u cynnwys yn y cynlluniau Rheoli a'r cynlluniau Adrannol.

23 Mae'r Awdurdod yn symud tuag at ddull cynllunio sy'n canolbwyntio'n fwy ar ganlyniadau ac sy'n gliriach o ran yr hyn y gall dinasyddion ddisgwyl ei weld. Yn yr un modd â sawl sefydliad arall, mae'r newid sylfaenol hwn mewn ffocws yn her ac mae angen sicrhau y caiff y newid mewn dull ei ymgorffori ym mhob rhan o'r Awdurdod.

24 Mae'r Awdurdod yn dechrau newid y ffordd y mae'n gwneud pethau gyda'r nod o wella ei effeithlonrwydd, ac mae'r canlynol ymhlith yr enghreifftiau:

- gweithredu'r effeithlonrwydd a nodwyd yn yr Adolygiad o Wasanaeth;
- gwella'r dadansoddiad o anghenion hyfforddi a chynnal hyfforddiant critigol o ran risg gan gynnwys y defnydd o gyfarpar anadlu, sgiliau gyrru, rheoli digwyddiadau, a darparu hyfforddiant ychwanegol i swyddogion y system ar ddyletswydd yn ôl galw;
- newid trefniadau criwio, gan gynnwys cyflwyno trefniadau hunangriwio ym Mhontardawe;
- mabwysiadu ffyrdd newydd o gyfathrebu â grwpiau sy'n agored i niwed;
- sicrhau gwydnwch yr ystafell reoli;
- cyflwyno strwythur sefydliadol newydd o fis Ebrill 2011 a gyflwynodd newidiadau i strwythurau rheoli'r sir a gorsafoedd criwiau dydd.

25 Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi nodi nifer o feysydd ar gyfer gwella i'r Awdurdod yn ei adroddiadau dros y ddwy flynedd diwethaf. Mae gan yr Awdurdod drefniadau i fonitro'r cynnydd sy'n cael ei wneud yn erbyn cynigion Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer gwella, a chafodd y Pwyllgor Archwilio ac Adolygu Perfformiad ei adroddiad monitro ffurfiol cyntaf ym mis Ionawr 2012. Nododd llythyr *Diweddaru'r Asesiad Corfforaethol* (Gorffennaf 2011) fod yr Awdurdod yn gweithio i fynd i'r afael â'r meysydd ar gyfer gwella a nodwyd yn flaenorol. Mae'r tabl isod yn rhoi'r diweddaraf ar y camau gweithredu a gymerwyd i fynd i'r afael â'r holl gynigion blaenorol ar gyfer gwella:

| Cynnig ar gyfer gwella | Diweddariad 2012 |
|---|---|
| Asesiad Corfforaethol Rhagarweiniol (Awst 2010) | |
| Llunio cynllun rheoli asedau a threfniadau rheoli perfformiad mewn perthynas â rheoli adeiladau. | Aelodau i ystyried y cynlluniau drafft ar ddechrau 2012. Mae fersiwn drafft o'r Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol wedi'i ddrafftio, sy'n cysylltu â'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig a'r Cynllun Strategol Pum Mlynedd Corfforaethol.<br><br>Mae cynlluniau rheoli asedau wedi'u drafftio ar gyfer eiddo, TGCh, trafnidiaeth a chyfarpar gweithredol, ac mae diweddariadau blynyddol wedi'u cynllunio.<br><br>Ar hyn o bryd mae cynlluniau drafft ar gyfer pob agwedd ar reoli asedau ac mae'r Awdurdod yn disgwyl cyhoeddi'r fersiynau terfynol ohonynt cyn diwedd y flwyddyn. |
| Llunio dadansoddiad manwl o anghenion hyfforddi i ategu ei weithgareddau hyfforddi a datblygu. | Mae'r Awdurdod wedi gwneud cynnydd da o ran mynd i'r afael â gwendidau wrth nodi ei anghenion hyfforddi critigol o ran risg. Mae wedi datblygu Terian fel sylfaen ar gyfer nodi ei anghenion hyfforddi; mae gwybodaeth yn fwy amserol a dibynadwy erbyn hyn. Mae'r Awdurdod wedi blaenoriaethu sgiliau critigol o ran risg i sicrhau bod pob aelod o staff yn gymwys ac mae'n datblygu cynllun hyfforddi a datblygu tair blynedd. |

| Cynnig ar gyfer gwella | Diweddariad 2012 |
|---|---|
| Yr Adroddiad Gwella Blynyddol (Ionawr 2011) | |
| Adolygu'r ystod o systemau data a gwybodaeth am y rhesymau canlynol:<br>• fel bod gwell gwybodaeth argael i helpu i ddarparu gwasanaethau gweithredol a gwneud penderfyniadau e.e. proffiliau cymunedol;<br>• fel ei bod yn haws rhannu gwybodaeth â phartneriaid e.e. o ran cronfeydd data o safleoedd annomestig a Gwiriadau Diogelwch Tân yn y Cartref;<br>• gwella gwaith monitro perfformiad fel bod yr Awdurdod yn gwybod sut mae'n perfformio yn erbyn ei amcanion gwella a sut mae'n cymharu ag awdurdodau tân ac achub eraill. | Mae'r Awdurdod yn edrych ar ei ofynion o ran gwybodaeth a sut mae'n rheoli ei ddata ond mae angen gwneud mwy o waith i ddatblygu'r mater:<br>• mae Grŵp Rhyngweithredu Data yn edrych ar nodi gwelliannau o ran argaeledd data a'i rannu rhwng systemau;<br>• mae blaenoriaethau Proffilio Risg yn cael eu nodi yn y strategaeth Lleihau Risg yn y Gymuned;<br>• mae cofrestr safleoedd peryglus yn cael ei datblygu gyda phartneriaid a Llywodraeth Cymru.<br>Mae terfynellau data symudol bellach yn cael eu diweddaru'n fwy rheolaidd, sy'n rhoi gwybodaeth fwy cyfredol i griwiau yn amlach.<br>Mae system Ffynnon yn cael ei defnyddio ond mae angen ei datblygu ymhellach.<br>Mae gwybodaeth leol am berfformiad wrthi'n cael ei datblygu ond mae'r gwaith o fonitro perfformiad yn cael ei lywio gan ddangosyddion perfformiad ac nid yw'n canolbwyntio ar gyflawni amcanion gwella ac nid oes dim wedi newid ar gyfer 2011-12. |
| Datblygu'r amcanion gwella a'r mesurau perfformiad a chanlyniadau cysylltiedig sy'n ei alluogi i nodi effaith ei weithgarwch ar ei gymuned. | Mae'r Awdurdod yn dechrau defnyddio trefniadau Cyfrifyddu sy'n Seiliedig ar Ganlyniadau i ddatblygu ei amcanion gwella ond mae angen gwneud rhagor o waith i ddatblygu mesurau perfformiad a chanlyniadau cysylltiedig ar gyfer 2012-13.<br>Mae rôl Swyddog Gwerthuso wedi'i chreu ar gyfer 2012-13. |
| Adolygu'r modd y mae'n ymgynghori ac yn ymgysylltu fel bod rhanddeiliaid a dinasyddion yn cael cyfleoedd priodol i ddylanwadu ar flaenoriaethau ar gyfer gwella a'u llywio yn y dyfodol. | Cafodd strategaeth ar gyfer cyfleu ac ymgynghori ar Gynllun Gweithredu Blynyddol Drafft 2012-13 ei hadolygu a'i chymeradwyo gan Weithgor yr Aelodau ar Gynllunio i Leihau Risg.<br>Mae'r Awdurdod wedi cymeradwyo Strategaeth Ymgynghori a Chyfathrebu (2011-15) ac wedi cynnal ystod o weithgareddau i gasglu barn y cyhoedd, gan gynnwys ymweld â digwyddiadau fel Sioe Frenhinol Cymru a digwyddiadau lleol eraill. |

## Mae gan yr Awdurdod ddull cadarn o reolaeth ariannol ond, o ystyried maint y newid sydd ei angen, mae angen trefniadau arweinyddiaeth clir parhaol

26 Yn ddiweddar mae'r Awdurdod wedi cwblhau'r cynllun ariannol tymor canolig (2012-2015) gan sicrhau ei fod mewn sefyllfa well i ateb ei heriau ariannol. Mae wedi bod yn ymwybodol ers cryn amser bod angen iddo sicrhau ei fod yn defnyddio ei adnoddau mor effeithiol â phosibl ac mae'n parhau i wneud paratoadau synhwyrol. Ystyriodd yr Adolygiad o Wasanaeth (a gynhaliwyd yn 2010-11) bob agwedd ar y gwasanaethau a ddarperir er mwyn nodi effeithlonrwydd a nifer o gamau gweithredu a luniwyd i gyflawni arbedion yn y dyfodol.

27 Mae gan yr Awdurdod hanes da o ddarparu gwasanaethau o fewn yr adnoddau sydd ar gael iddo a golyga hyn ei fod mewn sefyllfa gref ar gyfer y dyfodol. Yn ystod 2010-11, llwyddodd yr Awdurdod i danwario o £2.49 miliwn yn erbyn ei gyllideb ac ym mis Medi 2011, cytunodd i ddychwelyd £1 filiwn o'r swm hwn i'w awdurdodau cyfansoddol. Cyflawnwyd y tanwariant yn bennaf drwy beidio â recriwtio pobl i swyddi gwag a rheoli'r llwyth gwaith gweddilliol drwy ad-drefnu rotas yn y byrdymor, secondiadau, rhoi mwy o ddyletswyddau i gyflogeion ac ymestyn contractau yn ôl y galw; sicrhau bod llai o swyddogion yn ymddeol oherwydd salwch, a grant ychwanegol gan Lywodraeth Cymru.

28 Mae'r Awdurdod yn gwneud cynnydd da o ran cyflawni'r arbedion effeithlonrwydd o £1.23 sydd wedi'u cynllunio ar gyfer 2011-12. Fel y nodir uchod, dechreuodd y Grŵp Gweithredu Gwelliant mewn Gwasanaethau fonitro cynnydd yr effeithlonrwydd a nodwyd yn ystod 2011-12. At hynny, mae'r rhagolwg ariannol diweddaraf yn rhagweld tanwariant pellach o tua £0.5 miliwn ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol, yn bennaf o ganlyniad i'r ffaith bod yr arbedion a gynlluniwyd wedi'u cyflawni'n gynt na'r disgwyl a mwy o incwm.

29 Yn ddiweddar mae'r Awdurdod wedi cymeradwyo ei gyllideb ar gyfer 2012-13 a nodi amcangyfrifon o'r arbedion effeithlonrwydd sydd eu hangen ar gyfer y cyfnod o dair blynedd hyd at 2014-15. Er bod rhywfaint o ansicrwydd o hyd ynghylch yr union gamau a maint yr arbedion effeithlonrwydd sydd eu hangen, ar hyn o bryd, yr amcan ffigurau yw £279,000 yn 2012-13, £657,000 yn 2013-14 ac ychydig dros £1 filiwn yn 2014-15. Mae'r Awdurdod wedi nodi ei bod yn hanfodol cynllunio ar gam cynnar er mwyn cyflawni'r effeithlonrwydd hwn yn y dyfodol gan fod amseroedd arwain hir yn gysylltiedig â llawer ohonynt a llawer o newidiadau i'w gweithredu.

30 Yn ddiweddar, rhoddodd yr archwilydd a benodwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol farn ddiamod ar gyfrifon 2010-11 yr Awdurdod gan gadarnhau bod yr arian wedi'i wario yn briodol. Mae Atodiad 3 yn rhoi mwy o fanylion.

## Nid yw trefniadau rheoli gwybodaeth yr Awdurdod yn cefnogi gwelliant mewn ffordd gadarnhaol ac mae nifer o wendidau sylweddol

31 O ganlyniad i bwysau ariannol cynyddol ar y sector cyhoeddus, mae angen gwneud y mwyaf o'r wybodaeth a ddelir i ddarparu gwasanaethau o safon yn effeithiol a chynllunio ar eu cyfer. Daeth ein hadolygiad o'r ffordd y mae'r Awdurdod yn rheoli gwybodaeth i'r casgliad canlynol:

- Ceir gwendidau yn y trefniadau llywodraethu. Er enghraifft, nid oes gan yr Awdurdod Strategaeth Wybodaeth ddatblygedig na fforwm rheoli wedi'i ffurfioli sydd â chyfrifoldeb am reoli gwybodaeth. Nid yw staff yn cael eu hyfforddi'n llawn ar faterion sy'n ymwneud â gwybodaeth, gan gynnwys diogelwch gwybodaeth.
- Mae gan yr Awdurdod rywfaint o ddiogelwch gwybodaeth ar waith, ond mae angen ehangu hwn i adlewyrchu arfer da (safon ryngwladol) ac i gwmpasu gwybodaeth ar bapur yn ogystal â gwybodaeth electronig. Nid yw ei ddull o reoli gwybodaeth a rheoli negeseuon e-bost yn gadarn.
- Mae'r meysydd allweddol ar gyfer gwella fel a ganlyn:
  – datblygu a gweithredu Strategaeth Wybodaeth;
  – egluro rolau a chyfrifoldebau'r Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth;
  – sicrhau bod y Grŵp Llywio TGCh yn cyflawni swyddogaeth Fforwm Diogelwch Gwybodaeth;
  – adolygu rolau a chyfrifoldebau'r Grŵp Llywio TGCh a'r Bwrdd Polisi o ran diogelwch gwybodaeth a llywodraethu;
  – adolygu cynllun gwaith y Swyddog Diogelwch Gwybodaeth;
  – sefydlu trefniadau cadarn ar gyfer rheoli cylch oes cyfan gwybodaeth electronig;
  – cyflymu'r broses o ddarparu rhaglenni hyfforddi swyddogion yn cwmpasu materion sy'n ymwneud â rheoli gwybodaeth.

## Nid yw trefniadau cyfredol yr Awdurdod ar gyfer datblygu, defnyddio a chefnogi technoleg yn debygol o gefnogi gwelliant parhaus heb newidiadau sylweddol, y mae'r Awdurdod yn dechrau eu cyflawni

32 Mae'n rhaid gwneud defnydd effeithiol o dechnoleg er mwyn trawsnewid y broses o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus, gwella canlyniadau i ddinasyddion a chyflawni arbedion effeithlonrwydd.

33 Canfu ein hadolygiad nad yw trefniadau presennol yr Awdurdod ar gyfer datblygu, defnyddio a chefnogi technoleg yn debygol o gefnogi gwelliant parhaus heb newidiadau sylweddol. Mae'r Awdurdod yn ymwybodol bod angen cymryd camau i wella trefniadau er mwyn sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd yn ei ddefnydd o dechnoleg ac mae wrthi'n ystyried sut i wneud hyn orau. Mae'r meysydd allweddol ar gyfer gwella fel a ganlyn:

- datblygu strategaeth TGCh pum mlynedd newydd;
- atgyfnerthu trefniadau Llywodraethu TGCh;

- adolygu trefniadau ariannu TGCh;
- adolygu'r Gwasanaeth TGCh i sicrhau bod ganddo'r sgiliau TGCh a'r gallu i gefnogi a datblygu'r defnydd o dechnoleg newydd;
- defnyddio technoleg i optimeiddio a safoni prosesau a gweithdrefnau busnes;
- cynnal adolygiad ar ôl i bob prosiect TGCh ddod i ben.

34 Ystyriwyd Cynllun Gweithredu, a ddatblygwyd i nodi camau i fynd i'r afael â chynigion ar gyfer gwella yn adolygiadau Technoleg a Rheoli Gwybodaeth Swyddfa Archwilio Cymru, drwy gynnal ymarfer craffu i aelodau ym mis Tachwedd 2011. Mae'r Grŵp Gweithredu Gwelliant mewn Gwasanaethau yn monitro'r gwaith o weithredu camau gwella. Mae'r cynnydd hyd yma yn cynnwys: drafftio Strategaeth TGCh ddiwygiedig; caffael meddalwedd 'Sharepoint'; penodi swyddog datblygu Sharepoint; datblygu gallu mynediad o bell; a gweithredu trefniadau newydd ar gyfer diweddaru terfynellau data symudol mewn cerbydau.

## Mae'r Awdurdod yn bodloni ei rwymedigaethau statudol o ran Deddf yr Iaith Gymraeg

35 Cafodd yr Awdurdod ganmoliaeth gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg (y Bwrdd) am gydnabod y diffyg o ran nifer y staff dwyieithog mewn dwy o'i ganolfannau rheoli yn y sir ac am gymryd camau i unioni hyn drwy ei strategaeth hyfforddi. Mae'r Bwrdd hefyd wedi croesawu'r ymrwymiad ariannol tuag at wasanaethau Cymraeg a ddyrannwyd ar gyfer 2011-12 a'r broses o sefydlu fforwm Hyrwyddwyr Iaith i drafod materion sy'n ymwneud â'r iaith Gymraeg. Fodd bynnag, hyd yma, nid yw'r Awdurdod wedi gweithredu argymhellion yr adolygiad o'r wefan yn 2010. Mae'r Bwrdd yn disgwyl i'r Awdurdod gwblhau'r gwaith cyn gynted â phosibl er mwyn cydymffurfio'n llawn â'i Gynllun Iaith Gymraeg.

## Mae'r Awdurdod wedi cyflawni llawer o'r camau a'r mentrau a gynlluniwyd ganddo ond mae Amcanion Gwella cyffredinol iawn yn ei gwneud yn anodd asesu cynnydd

36 Mae'r adran hon o'r adroddiad yn nodi ein hasesiad o berfformiad yr Awdurdod o ran:

- cyflawni'r amcanion gwella a bennodd iddo'i hun yn 2010-11;
- helpu i leihau tebygolrwydd ac effaith tanau a gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd drwy ei weithgareddau atal ac amddiffyn;
- ymateb i danau a bygythiadau eraill i ddiogelwch.

### Mae llawer o gamau gweithredu a mentrau wedi'u cyflawni i gefnogi ei feysydd ffocws ond mae diffyg eglurder ynghylch gweithgareddau a gynlluniwyd a sut y caiff cyflawniadau eu mesur yn golygu ei bod yn anodd asesu a gwerthuso cynnydd

37 Ni phennodd awdurdodau tân ac achub Amcanion Gwella o dan y Mesur Llywodraeth Leol (2009) (y Mesur) ar gyfer 2010-11, ond yn lle hynny ailddatganwyd eu hamcanion corfforaethol cyfredol (gan mai hon oedd y flwyddyn interim gyntaf cyn i'r Mesur gael ei weithredu'n llawn). Mae Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod tân ac achub gyhoeddi ei gynlluniau ar gyfer gwella eu gwasanaethau erbyn diwedd mis Hydref cyn y flwyddyn y maent yn berthnasol iddi. Ym mis Hydref 2009 cyhoeddodd yr Awdurdod ei gynllun ar gyfer 2010-11[2] ac, ar ôl hynny, cyhoeddodd Amcanion Gwella ar gyfer 2011-12 a 2012-13 o fewn y terfynau amser angenrheidiol.

38 Roedd 2010-11 yn 'flwyddyn gynllunio' ar gyfer yr Awdurdod ac roedd yr Adolygiad cynhwysfawr o Wasnaeth i nodi effeithlonrwydd a gwelliannau ar gyfer y dyfodol yn faes ffocws allweddol. Nododd yr Awdurdod chwe Amcan Gwella o fewn y thema Rheoli Risg ond ni nodwyd y camau penodol a gynlluniwyd ganddo na'r mesurau y byddai'n eu defnyddio i asesu cyflawniadau. Mae Atodiad 4 yn darparu gwybodaeth am yr amcanion gwella ar gyfer 2010-11 a 2011-12.

39 Felly, mae asesu cyflawniadau wedi bod yn anodd, ond gallwn nodi y gall yr Awdurdod, ar y cyfan, ddangos nifer o gamau gweithredu a mentrau sy'n cyfrannu at welliannau yn y meysydd hyn, fel y crynhoir yn y tabl isod:

2 Cynllun Gweithredu Blynyddol 2010-2011 a Chynllun Gwella 2009-2010 – Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru.

| Amcan Gwella/Maes Gwella Allweddol 2010-11 | Cynnydd |
|---|---|
| **Gwella'r ffordd rydym yn cyrraedd aelodau o'r gymdeithas sy'n agored i niwed**<br>Mae gwaith diogelwch cymunedol wedi'i dargedu at yr unigolion sydd fwyaf agored i niwed mewn cymunedau, ond gwyddom na allwn gyrraedd pawb.<br>Atgyfnerthu cysylltiadau â sefydliadau partner sydd mewn cysylltiad rheolaidd â phobl sy'n agored i niwed a thargedu lleoliadau lle maent yn cwrdd, megis canolfannau dydd.<br>Codi ymwybyddiaeth o'r ystod o wasanaethau y gallwn ei darparu. | • Mae'r Awdurdod yn categoreiddio grwpiau penodol sy'n agored i niwed fel rhai risg uchel ac yn eu blaenoriaethu ar gyfer ymwybyddiaeth o ddiogelwch cymunedol. Ymysg y grwpiau hyn mae'r henoed, rhai rhieni sengl, y rheini sydd â phroblemau iechyd meddwl, unigolion sy'n gaeth i sylweddau ac ysmygwyr.<br>• Mae'r Awdurdod wedi nodi asiantaethau sy'n rhoi mynediad i unigolion o'r fath sy'n agored i niwed a nifer o Gytundebau Lefel Gwasanaeth/trefniadau partneriaeth â sefydliadau sector gwirfoddol gan gynnwys Age Concern, Gofal a Thrwsio, y Groes Goch Brydeinig a Thimau Cymorth Ieuenctid.<br>• Mae cyllid Llywodraeth Cymru wedi'i ddefnyddio i gyflogi Cydlynydd Trydydd Sector i atgyfnerthu cysylltiadau â'r asiantaethau hyn.<br>• O'r 23,000 o Wiriadau Diogelwch Tân yn y Cartref a gynhaliwyd yn ystod 2010-11, cynhaliwyd tua 2,000 (9%) gan bartneriaid o'r sector gwirfoddol o gymharu â 'nifer fach' yn flaenorol.<br>• Mae prosiectau wedi'u hyrwyddo mewn nifer o ffyrdd gan gynnwys negeseuon e-bost, cyhoeddiadau, seminarau a diwrnodau iechyd.<br>• Treialu partneriaeth ag Air Products (darparwr Ocsigen i eiddo domestig) i nodi a chysylltu â phobl sy'n agored i niwed mewn perthynas â blaenoriaethu profion diogelwch tân yn y cartref. Mae'r trefniant hwn hefyd yn darparu gwybodaeth i griwiau sy'n ymateb i danau mewn eiddo lle y cedwir ocsigen. |

| Amcan Gwella/Maes Gwella Allweddol 2010-11 | Cynnydd |
|---|---|
| **Rhannu ein cyfleusterau â'n cymunedau**<br>Rydym am i'n gorsafoedd tân fod ar agor ac ar gael i'r cyhoedd, ond mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i ni ddatblygu ein safleoedd i'w gwneud yn addas i'w rhannu.<br>Bydd gwaith yr Awdurdod yn y maes hwn yn ein galluogi i ddatblygu ein cysylltiadau â gwasanaethau eraill ymhellach ac ehangu ein hystod o gyfleusterau cymunedol. | • Mae 29 o ystafelloedd cyfarfod ar gael am ddim ledled yr ardal i'r gymuned eu defnyddio.<br>• Ceir tystiolaeth bod grwpiau cymunedol yn defnyddio'r cyfleusterau, gan gynnwys cyfarfodydd yr Heddlu a Chymunedau Ynghyd, digwyddiadau Beicio Diogel a grŵp i'r henoed yn y Trallwng. Ond ni wyddys i ba raddau y mae'r gymuned yn defnyddio'r rhain i hyrwyddo gweithgareddau diogelwch tân.<br>• Buddsoddodd yr Awdurdod mewn gwella safleoedd i sicrhau eu bod yn addas i'r cyhoedd eu defnyddio. |
| **Ymgysylltu â chymunedau**<br>Hyrwyddo gweithgareddau diogelwch cymunedol a chodi ymwybyddiaeth y cyhoedd o bob agwedd ar ein gwaith.<br>Hyrwyddwyd y gwaith o ymgysylltu â chymunedau drwy gysylltu'n uniongyrchol â'r cyhoedd, megis cynlluniau Diffoddwyr Tân Ifanc, presenoldeb mewn ysgolion, digwyddiadau cymunedol a chyfarfodydd cynghorau lleol a chymunedol yn ogystal â gweithio gyda phartneriaid eraill. | • Mae Swyddfa'r Bartneriaeth wedi parhau i feithrin cysylltiadau â sefydliadau gwirfoddol gan gynnwys Cyrenians, Wallich a Phrosiect Cyffuriau Abertawe, ac is-gontractio asiantaethau gofal a ddefnyddir gan gynghorau.<br>• Mae 12 o Unedau Diffoddwyr Tân Ifanc wedi parhau, ac mae'r cyrsiau Phoenix wedi'u cwblhau.<br>• Mae timau Diogelwch Cymunedol a gorsafoedd lleol wedi parhau i gynnal ystod eang o weithgareddau gan gynnwys arddangosiadau padell ffrio, cyngor ar ddiogelwch ar y ffyrdd a chymryd atgyfeiriadau ar gyfer gwiriadau diogelwch tân yn y cartref.<br>• Mae Strategaeth Cyfathrebu ac Ymgynghori wedi'i datblygu ar gyfer 2011-15. |

| Amcan Gwella/Maes Gwella Allweddol 2010-11 | Cynnydd |
|---|---|
| **Gwella Diogelwch ar y Ffyrdd**<br>Rydym eisoes yn gweithio gyda'n partneriaid i wneud pobl yn fwy ymwybodol o'r peryglon ar ein ffyrdd ac i wella diogelwch.<br>Gwella'r ffordd y mae ein staff yn delio â damweiniau traffig ar y ffyrdd.<br>Addysgu pobl ifanc a grwpiau risg eraill; gweithio gyda phartneriaid a gwella prosesau rhannu gwybodaeth.<br>Caiff yr ystod o fentrau cydweithio a chodi ymwybyddiaeth eu cyflwyno i'r fforymau y mae'r Gwasanaeth yn rhan ohonynt, yn lleol ac yn genedlaethol. | • Cynhaliodd yr Awdurdod nifer o fentrau mewn partneriaeth â'r Heddlu a thimau diogelwch ar y ffyrdd cynghorau lleol. Y grwpiau targed oedd gyrwyr ifanc a beicwyr modur, ac ymysg y mentrau mae Pass Plus Cymru, Crash Scene Incident, Too Much Punch for Judy, Beicio Diogel a Digwyddiadau Ymgysylltu â Beicwyr Ymgyrch Darwen.<br>• Mae gwybodaeth am Ddiogelwch ar y Ffyrdd hefyd wedi'i chynnwys mewn rhaglenni addysg i ysgolion, cyrsiau Phoenix a gweithgareddau Diffoddwyr Tân Ifanc.<br>• Mae'r Awdurdod wedi ymweld ag awdurdodau tân ac achub eraill i nodi arfer gorau.<br>• Ymatebwyd i lai o wrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd yn ystod 2010-11. Mae'r ystadegau diweddaraf yn dangos y bu llai o farwolaethau, damweiniau difrifol ac anafiadau yn ardal yr Awdurdod o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. |
| **Darparu Gwiriadau Diogelwch Tân yn y Cartref**<br>Cynhelir gwiriadau diogelwch tân yn y cartref gan ddiffoddwyr tân, asiantaethau partner a staff diogelwch cymunedol penodedig ar hyn o bryd. Credwn fod cyfle i wella yn y maes hwn o bosibl - mae rhanddeiliaid o'r farn y gallwn wella'r gwaith o ddarparu Gwiriadau Diogelwch Tân yn y Cartref drwy ddefnyddio ein partneriaid i nodi a chynnal y gwiriadau ar ein rhan a rhoi cyhoeddusrwydd iddynt. | • Cynhaliwyd 23,000 o Wiriadau Diogelwch Tân yn y Cartref, sef ychydig yn llai na'r targed o 24,000, a gosodwyd tua 28,000 o larymau mwg.<br>• Sefydlwyd rôl Cydlynydd Gwiriadau Diogelwch Tân yn y Cartref i sicrhau ansawdd larymau tân a osodir yn unol ag arfer gorau ac i sicrhau bod staff a phartneriaid yn darparu gwasanaeth o ansawdd.<br>• Cafodd 'canolfan alwadau' ei threialu i reoli Gwiriadau Diogelwch Tân yn y Cartref mewn ardaloedd sy'n anodd eu cyrraedd ac, yn sgîl hyn, mabwysiadwyd y dull hwn ar lefel gorfforaethol.<br>• Mae'r Awdurdod wedi cwblhau adolygiad sylfaenol o weithdrefnau diogelwch tân yn y cartref, gan gynnwys sut y caiff gwiriadau diogelwch tân yn y cartref eu cynllunio a'u darparu, sut y caiff risgiau eu targedu a sut y caiff gwybodaeth ei storio a'i rhannu. Mae'r Bwrdd Polisi yn ystyried cyflwyno polisi newydd ym mis Ebrill 2011. |

| Amcan Gwella/Maes Gwella Allweddol 2010-11 | Cynnydd |
|---|---|
| **Lleihau tanau glaswelltiroedd bwriadol**<br>Mae tanau glaswelltiroedd a choedwigaeth bwriadol yn gwastraffu ein hadnoddau, yn peryglu ein diffoddwyr tân ac yn achosi niwed i'r amgylchedd.<br>Cydnabuwyd y gwaith sydd eisoes wedi'i wneud gan yr Awdurdod a'i bartneriaid i leihau tanau glaswelltiroedd, a nodwyd mai parhau â strategaethau addysg a gweithio gydag asiantaethau eraill yw'r ffordd orau ymlaen.<br>Dylid rhoi mwy o bwyslais ar drin tanau glaswelltiroedd yn fwy difrifol, gan gynnwys y cosbau am danau bwriadol, er mwyn newid agweddau at gynnau tân. | • Er bod yr Awdurdod wedi gweithredu mentrau i leihau tanau glaswelltiroedd, bu cynnydd o tua 25% yn ystod 2010-11 o gymharu â'r flwyddyn flaenorol (o 1,072 i 1,438). Mae'r Awdurdod yn priodoli hyn yn bennaf i gynnydd yn nifer y tanau bwriadol a'r tywydd. Mae'r Awdurdod yn cydnabod bod angen mwy na blwyddyn ar rai o'i fentrau i ddylanwadu ar ymddygiad.<br>• Bu cynnydd yn nifer yr hysbysiadau o waith llosgi dan reolaeth a gyflwynwyd gan dirfeddianwyr. Defnyddiwyd cyllid Llywodraeth Cymru i brynu Systemau Lleoli Byd-eang i leoli safleoedd lle y cynhelir gwaith llosgi dan reolaeth yn gywir.<br>• Ceisiodd Menter Gŵyr wella cydberthnasau a datrys anghydfod gyda Chominwyr sy'n llosgi rhostir sy'n Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig.<br>• Patroliwyd yr ardaloedd sydd dan fygythiad gan y Tîm Cefn Gwlad a Choedwigaeth (RaFT). |

40 Gwnaeth yr Awdurdod wella ei berfformiad (o gymharu â'r flwyddyn flaenorol) mewn perthynas ag wyth o'r 12 o Ddangosyddion Strategol Cenedlaethol y mae'n ofynnol iddo eu mesur. Mae'r dangosyddion perfformiad hyn yn gysylltiedig â thanau yr ymatebwyd iddynt, marwolaethau ac anafiadau oherwydd tanau a thanau ar safleoedd annomestig.

41 Er bod yr Awdurdod wedi ymateb i tua 10 y cant yn fwy o danau yn 2010-11 o gymharu â'r flwyddyn flaenorol (5,077 i 5,607, yn bennaf o ganlyniad i danau glaswelltiroedd), mae dangosyddion perfformiad sy'n ymwneud â marwolaethau ac anafiadau oherwydd tanau'n dangos dim newid neu ostyngiad. Fodd bynnag, gwelodd yr Awdurdod gynnydd o tua chwech y cant yn nifer y tanau ar safleoedd annomestig o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, ond mae'r duedd yn gostwng yn yr hirdymor.

## Mae'r Awdurdod yn helpu i osgoi damweiniau traffig ar y ffyrdd ond ymatebodd i fwy o danau er bod nifer y marwolaethau'n parhau'n isel a bod nifer yr anafiadau'n gostwng

**Ymatebwyd i ychydig yn fwy o danau mewn anheddau o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, ond arhosodd nifer y marwolaethau a'r anafiadau yr un peth**

42 Mae'r Awdurdod yn cynnal amrywiaeth o weithgareddau a gynlluniwyd i atal tanau rhag digwydd a lleihau eu heffaith pan fyddant yn digwydd. Yn 2010-11, rhoddodd yr Awdurdod drefniadau ar waith i ddatblygu ymhellach ddull o gynnal ei raglen Gwiriadau Diogelwch Tân yn y Cartref sydd wedi'i dargedu'n well, ac mae nifer o gytundebau lefel gwasanaeth ar waith ag asiantaethau partner i gynnal gwiriadau. Nid yw'n bosibl asesu a yw'r Gwiriadau Diogelwch Tân yn y Cartref a gynhelir wedi'u targedu at y bobl sydd fwyaf agored i niwed mewn gwirionedd, gan nad yw'r data hwn yn cael ei gasglu. Fodd bynnag, yn ddiweddar cwblhaodd yr Awdurdod adolygiad o'i ddull o gynnal Gwiriadau Diogelwch Tân yn y Cartref ac mae'n datblygu polisi newydd i'w ddefnyddio o fis Ebrill 2012.

43 Gwelwyd cynnydd bach o ddau y cant yn nifer y tanau mewn anheddau yr ymatebwyd iddynt yn ystod 2010-11 o gymharu â'r flwyddyn flaenorol (o 661 i 674), sy'n wahanol i'r duedd ledled Cymru lle y gwelwyd gostyngiad o bedwar y cant yn nifer y tanau mewn anheddau yr ymatebwyd iddynt:

- gwelwyd cynnydd bach o dri y cant yn nifer y tanau a ddechreuwyd yn ddamweiniol mewn anheddau yn ystod 2010-11 o gymharu â'r flwyddyn flaenorol (o 584 i 604), sy'n wahanol i'r duedd ledled Cymru lle y gwelwyd gostyngiad o ddau y cant;
- gwelwyd gostyngiad o naw y cant yn nifer y tanau mewn anheddau a ddechreuwyd yn fwriadol (o 77 i 70) sy'n is na chyfartaledd Cymru, sef gostyngiad o 13 y cant ar gyfer yr un cyfnod.

44 Er bod yr Awdurdod wedi ymateb i ddau y cant yn fwy o danau mewn anheddau, ni welwyd newid yn nifer y bobl a fu farw neu a gafodd eu hanafu mewn tanau mewn anheddau o gymharu â 2009-10 (bu farw saith a chafodd 42 o bobl eu hanafu). Mae hyn yn wahanol i'r duedd genedlaethol lle y gwelwyd cynnydd o 11 y cant mewn marwolaethau a chynnydd o 23 y cant mewn anafiadau.

45 Gwelir tystiolaeth sy'n awgrymu bod larymau mwg a roddir am ddim i'r rhai sydd mewn perygl fel rhan o'i waith ar Wiriadau Diogelwch Tân yn y Cartref yn gwneud gwahaniaeth:

- cafwyd llai o danau mewn anheddau mewn eiddo heb larwm mwg (o 44 y cant i 42 y cant yn 2010-11), ond mae'r gyfran hon yn parhau'n uwch na chyfartaledd Cymru, sef 38 y cant ar gyfer 2010-11;
- ni fu newid yn y gyfran o danau mewn anheddau yr ymatebwyd iddynt lle'r oedd cyfarpar canfod tân wedi'i weithredu (44 y cant), ond mae'r gyfran hon yn parhau'n is na chyfartaledd Cymru, sef 48 y cant ar gyfer 2010-11;
- ymatebwyd i ychydig yn fwy o danau mewn anheddau lle roedd cyfarpar canfod tân wedi'i osod ond heb ei weithredu (o 12 i 14 y cant) ac mae hyn yn cymharu'n dda â chyfartaledd Cymru, sef 15 y cant ar gyfer 2010-11.

**Ymatebwyd i fwy o danau ar safleoedd annomestig o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, ond gwelwyd gostyngiad yn nifer y marwolaethau ac anafiadau**

46 Cafwyd cynnydd o chwech y cant yn nifer y tanau yr ymatebwyd iddynt ar safleoedd annomestig yn ystod 2010-11 o gymharu â'r flwyddyn flaenorol (o 315 i 333) o gymharu â gostyngiad o 10 y cant ledled Cymru ar gyfer yr un cyfnod.

47 Ni chafwyd unrhyw farwolaethau mewn tanau ar safleoedd annomestig yn ystod 2010-11 (cafwyd un farwolaeth yn 2009-10). Gostyngodd nifer yr anafiadau a achoswyd gan danau annomestig 71 y cant (o saith i ddau), sydd yn llawer gwell na'r cynnydd o 41 y cant ledled Cymru ar gyfer yr un cyfnod.

48 Mae'r Awdurdod wedi mabwysiadu canllawiau cenedlaethol Cymdeithas y Prif Swyddogion Tân ar leihau galwadau tân diangen a rhybuddion tân diangen. Gwelwyd gostyngiad o 14 y cant yn nifer y rhybuddion tân diangen yr ymatebwyd iddynt yn ystod 2010-11, i 1,977 o gymharu â 2,302 yn 2009-10. Mae hyn yn uwch na chyfartaledd Cymru, sef gostyngiad o naw y cant ar gyfer yr un cyfnod.

**Ymatebwyd i fwy o danau bwriadol yn ystod 2010-11 o gymharu â'r flwyddyn flaenorol a chafwyd un farwolaeth, ond gostyngodd nifer yr anafiadau**

49 Gwelwyd cynnydd o 16 y cant yn nifer y tanau bwriadol yr ymatebwyd iddynt yn ystod 2010-11 o gymharu â'r flwyddyn flaenorol (o 2,832 i 3,278) sy'n uwch na chyfartaledd Cymru, sef cynnydd o 11 y cant ar gyfer yr un cyfnod.

50 Cafodd tua 58 y cant o'r holl danau yr ymatebwyd iddynt eu dechrau'n fwriadol yn ystod 2010-11, sy'n uwch na'r ffigur ar gyfer 2009-10 (56 y cant) ond yn is na chyfartaledd Cymru, sef 69 y cant ar gyfer yr un cyfnod. Ledled Cymru rhwng 2009-10 a 2010-11 bu cynnydd yn nifer y tanau bwriadol yr ymatebwyd iddynt.

51 Bu farw un person mewn tân bwriadol mewn annedd yn ystod 2010-11. Gwelwyd gostyngiad o 75 y cant yn nifer yr anafiadau a achoswyd gan danau bwriadol, o wyth i ddau.

52 Mae Llywodraeth Cymru yn ariannu'r Tîm Lleihau Tanau Bwriadol ac mae nifer o brosiectau wedi'u rhoi ar waith ym maes diogelwch cymunedol i fynd i'r afael â thanau bwriadol yn benodol. Mae'r Tîm Cefn Gwlad a Choedwigaeth (RaFT) amlasiantaethol yn patrolio ardaloedd sydd mewn perygl mawr o gael tanau glaswelltiroedd, a chaiff hyn ei gyfuno ag ymweliadau ag ysgolion i addysgu plant am beryglon tanau bwriadol.

**Mae ymgyrchoedd Diogelwch ar y Ffyrdd wedi cyfrannu at ostyngiadau yn nifer y damweiniau traffig ar y ffyrdd yr ymatebwyd iddynt, damweiniau angheuol a difrifol ac anafiadau**

53 Nid yw diogelwch ar y ffyrdd yn ddyletswydd statudol i'r Awdurdod, ond mae'n cydweithio â'r heddlu ac eraill i wneud pobl yn fwy ymwybodol o beryglon y ffyrdd ac i wella diogelwch. Er bod gwelliannau wedi'u cyflawni o ran diogelwch ar y ffyrdd yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru (fel y mae'r ffigurau isod yn ei ddangos), nid yw perfformiad yr Awdurdod, o'i gymharu â gweddill Cymru, bob amser yn gwella ar yr un gyfradd:

- Bu gostyngiad o 15 y cant yn nifer y damweiniau traffig ar y ffyrdd yr ymatebwyd iddynt yn ystod 2010-11, o 1,266 i 1,078, sy'n is na'r gostyngiad o 20 y cant ledled Cymru ar gyfer yr un cyfnod.
- Lleihaodd nifer y damweiniau angheuol a difrifol chwech y cant rhwng 2009, pan gafwyd 403 o ddamweiniau, a 2010, pan gafwyd 377 o ddamweiniau. Mae hyn yn is na'r gostyngiad o 10 y cant ledled Cymru.
- Bu gostyngiad sylweddol yn nifer y bobl a fu farw mewn gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd, o 55 yn 2009 i 37 yn 2010.
- Ni welwyd newid yn nifer y bobl a anafwyd rhwng 2009 a 2010, gyda 3,513 o anafiadau dros y ddwy flynedd, o gymharu â gostyngiad o bedwar y cant ledled Cymru ar gyfer yr un cyfnod.

54 Gwnaeth yr Awdurdod dargedu dau grŵp penodol, sef pobl ifanc a beicwyr modur, yn ei ymgyrchoedd diogelwch ar y ffyrdd, ac mae'r ystadegau canlynol yn dangos ei berfformiad:

- Bu 1,039 o yrwyr dan 25 oed mewn damweiniau yn 2009 o gymharu â 1,110 yn 2010. Mae hyn yn ostyngiad o chwech y cant o gymharu â gostyngiad o 14 y cant ledled Cymru.
- Cafodd 284 o feicwyr modur eu hanafu yn 2009 o gymharu â 260 yn 2010, sef gostyngiad o wyth y cant, sy'n cymharu'n ddau â'r gostyngiad a welwyd ledled Cymru ar gyfer yr un cyfnod, sef llai nag un y cant.

## Mae'r Awdurdod wrthi'n datblygu ffyrdd mwy arloesol ac effeithlon o ymateb i ystod eang o ddigwyddiadau, ond mae lefelau uwch o absenoldeb oherwydd salwch yn peri pryder o hyd

55 Mae'r Awdurdod yn cydnabod bod angen bod yn barod i ymateb i amrywiaeth eang o ddigwyddiadau, o danau a gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd i lifogydd, trychinebau naturiol eraill a therfysgaeth. Yn ystod 2010-11 atebodd y gwasanaeth Rheoli Tanau tua 27,280 o alwadau ac ymatebwyd i tua 15,168 o ddigwyddiadau yn sgîl hyn, a oedd yn cynnwys 5,607 o danau a 4,287 o ddigwyddiadau gwasanaeth arbennig (gan gynnwys gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd, achub pobl ac anifeiliaid).

56 Yn 2010-11, cynhaliodd yr Awdurdod adolygiad sylfaenol o'i wasanaeth a nododd y Rhaglen Adolygu Gwasanaethau ddilynol ffyrdd gwahanol o wella'r gwasanaeth heb amharu ar y trefniadau diogelwch ar gyfer criwiau gweithredol na'r cyhoedd gan wneud hynny am lai o arian. Mae newidiadau wedi'u gwneud i strwythurau Rheoli Sirol a threfniadau dyletswydd swyddogion, ac mae

lefelau staffio newydd wedi'u cyflwyno mewn Gorsafoedd Criwiau Dydd. Mae'r Awdurdod hefyd yn parhau i adolygu agweddau eraill ar y gwasanaethau a ddarperir ganddo, gan gynnwys lleoliad tendrau brys a'r defnydd a wneir ohonynt, y broses o gyflwyno Cerbydau Ymateb Gwledig a gwella ei allu o ran diogelwch llinell.

57 Mae'r Tîm Asesu Cymheiriaid Tân ac Achub wedi adolygu trefniadau ymateb ac ymdrin â galwadau yn ddiweddar, a bydd yn cyflwyno adroddiad ar hyn ar ddechrau 2012.

58 Yn ystod 2010-11 cafodd 59 o aelodau o staff eu hanafu sy'n gynnydd bach o gymharu â'r flwyddyn flaenorol pan anafwyd 57. Bu gostyngiad yn nifer yr aelodau o staff a anafwyd wrth hyfforddi neu 'ar ddyletswydd' yn ystod 2010-11, ond gwelwyd cynnydd yn nifer yr aelodau o staff a anafwyd mewn gweithgareddau arferol o 12 yn 2009-10 i 20 yn 2010-11.

59 Gwelwyd cynnydd sylweddol mewn absenoldeb oherwydd salwch ym mhob grŵp staff yn 2010-11 o gymharu â 2009-10. Gwelwyd cynnydd o tua 1,000 o ddiwrnodau yng nghyfanswm y diwrnodau/sifftiau a gollwyd o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, o 3,871 i 4,847 o ddiwrnodau, sy'n gynnydd o 25 y cant o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Mae'r tueddiadau o ran absenoldeb oherwydd salwch ar gyfer pob grŵp staff fel a ganlyn:

- collwyd 3,139 o ddiwrnodau/sifftiau o ganlyniad i absenoldeb oherwydd salwch ymysg staff gweithredol amser cyflawn, sy'n cyfateb i 7.2 diwrnod fesul aelod o staff cyfwerth ag amser llawn ac sy'n gynnydd o 23 y cant o gymharu â'r flwyddyn flaenorol;
- collwyd 336 o ddiwrnodau/sifftiau o ganlyniad i absenoldeb oherwydd salwch ymysg staff rheoli, sy'n cyfateb i 11.2 diwrnod fesul aelod o staff cyfwerth ag amser llawn ac sy'n gynnydd o bump y cant o gymharu â'r flwyddyn flaenorol;
- collwyd 1,372 o ddiwrnodau/sifftiau o ganlyniad i absenoldeb oherwydd salwch ymysg staff anweithredol, sy'n cyfateb i 8.7 diwrnod fesul aelod o staff cyfwerth ag amser llawn ac sy'n gynnydd o 32 y cant o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

60 Mae'r Awdurdod o'r farn bod y lefelau uwch o absenoldeb oherwydd salwch yn ystod 2010-11 yn rhannol o ganlyniad i'r newidiadau sefydliadol a roddwyd ar waith yn ystod y flwyddyn. Mae'r Awdurdod yn ceisio datrys y broblem drwy ganolbwyntio ar dargedau lleol a chynnal adolygiad o drefniadau iechyd galwedigaethol.

61 Gwelwyd gostyngiad o 13 y cant yn nifer y galwadau maleisus a gafodd yr Awdurdod yn ystod 2010-11 i 609 o gymharu â 701 yn 2009-10, sy'n well na chyfartaledd Cymru, a welodd ostyngiad o wyth y cant ar gyfer yr un cyfnod. Yn ogystal â gostyngiad yn nifer y galwadau maleisus y mae'n eu derbyn, mae nifer y galwadau maleisus yr ymatebwyd iddynt hefyd wedi lleihau 20 y cant dros yr un cyfnod, o 230 i 183, sydd unwaith eto yn well na chyfartaledd Cymru, sef 13 y cant ar gyfer yr un cyfnod.

## Mae gan yr Awdurdod ddulliau o fonitro perfformiad ond mae angen iddo ddatblygu mesurau perfformiad priodol ymhellach a chyflwyno adroddiadau arnynt i'w alluogi i asesu a yw'r amcanion gwella wedi'u cyflawni

62 Mae'r adran hon o'r adroddiad yn nodi ein casgliad o ran pa mor dda yw hunanasesiad yr Awdurdod o'i berfformiad. Nid yw'n ofynnol i awdurdodau tân ac achub lunio asesiad o berfformiad o dan y Mesur ar gyfer 2010-11 ond disgwylir iddynt asesu pa mor dda y maent yn cyflawni'r gwelliannau a gynlluniwyd ganddynt ar gyfer y flwyddyn honno. Mae'r asesiad yn defnyddio canfyddiadau ein harchwiliad o Ddangosyddion Perfformiad, yr archwiliad o'r Cynllun Gwella[3] a'r adolygiad o amcanion gwella.

63 Mae hunanasesiad cywir yn hollbwysig er mwyn galluogi'r awdurdod i:

- gydnabod y cynnydd y mae'n ei wneud;
- cymryd camau unioni pan nad yw perfformiad yn cyrraedd y lefelau disgwyliedig;
- cyflwyno adroddiadau ar ei berfformiad i ddinasyddion lleol mewn ffordd gytbwys.

64 Wrth archwilio'r data a'r dangosyddion perfformiad diweddaraf, gwelsom fod angen gwella ansawdd a chywirdeb y wybodaeth a gofnodir. O blith y 12 o Ddangosyddion Strategol Cenedlaethol y mae'n ofynnol i'r Awdurdod gasglu gwybodaeth a chyflwyno adroddiadau arnynt i Lywodraeth Cymru, nodwyd tri y mae angen eu cywiro ac un y mae angen ei gymhwyso. Cynigiwyd y dylai'r Awdurdod ystyried cymryd camau i:

- sicrhau y caiff data'r System Cofnodi Digwyddiadau ei gofnodi'n amserol yn ystod y flwyddyn;
- gweithredu gweithdrefnau priodol ar ddiwedd y flwyddyn i sicrhau data amserol a chyflawn;
- sicrhau y caiff data cyflawn a chywir ei gofnodi ar y System Cofnodi Digwyddiadau;
- gwella effeithlonrwydd yr archwiliad drwy sicrhau bod dogfennaeth a thystiolaeth ar gael yn hawdd i'w harchwilio.

65 Mae'r Awdurdod yn cydnabod yr angen i symud tuag at ddull sy'n canolbwyntio'n fwy ar ganlyniadau a bod rhai o'i amcanion gwella'n anodd eu mesur. Y llynedd awgrymwyd gennym y dylai mesurau a dangosyddion perfformiad gynnwys mesurau ansoddol a meintiol fel y gellir nodi a gwerthuso canlyniadau cymunedol. Mae'r Awdurdod yn parhau i ddatblygu cyfres o wybodaeth am berfformiad lleol a gaiff ei chasglu o fewn system Ffynnon ac a fydd yn ei alluogi i ddangos p'un a yw wedi cyflawni ei amcanion a chyflawni gwelliannau i'r cyhoedd. Mae'r Awdurdod yn gweithio tuag at roi cyfres o fesurau ar waith ar gyfer 2012-13.

66 Yn ystod 2011-12 bu newid yn y trefniadau ar gyfer monitro a chyflwyno adroddiadau a bellach mae tri adroddiad gwahanol i Aelodau yn cwmpasu materion yn ymwneud â pherfformiad. Ym mis Hydref 2011 cyflwynwyd adroddiad ar berfformiad yn ymwneud â Chwarter 1 (mis Ebrill i fis Mehefin 2011) i'r Pwyllgor Archwilio ac Adolygu Perfformiad ac roedd yn cynnwys yr adroddiadau canlynol:

- *Adroddiad Dangosyddion Perfformiad* - mae hwn yn seiliedig ar Ddangosyddion Strategol a Dangosyddion Craidd Cenedlaethol Llywodraeth Cymru ac un dangosydd lleol (Dangosydd Craidd gynt) ac nid yw wedi'i strwythuro o amgylch Amcanion Gwella'r Awdurdod.

3 Cynllun Gweithredu Blynyddol 2012-13 - Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru.

- *Adroddiad Busnes* - mae hwn yn nodi cynnydd a wnaed yn erbyn amcanion mewn cynlluniau busnes unigol ac nid yw wedi'i strwythuro o amgylch Amcanion Gwella'r Awdurdod.
- *Adroddiad Blynyddol ar Gynnydd Camau Gweithredu* - mae hwn yn adroddiad sy'n cynnwys naratif yn unig ond mae wedi'i strwythuro o amgylch Amcanion Gwella'r Awdurdod ar gyfer 2011-12.

67 Mae cyflwyno adroddiadau ar fesurau, dangosyddion a diweddariadau perfformiad ar wahân yn ei gwneud yn anodd cynnal asesiad cadarn a thryloyw o b'un a yw meysydd gwella allweddol ac amcanion gwella'n cael eu cyflawni. Ar hyn o bryd mae'r data'n cael ei gyflwyno i Aelodau tua thri mis ar ôl y cyfnod y mae'n berthnasol iddo a gall hyn effeithio ar allu'r Awdurdod i ymyrryd er mwyn sicrhau ei fod ar y trywydd cywir o ran perfformiad. Mae'r strwythur monitro swyddogion sydd ar waith drwy'r Fforwm Gwella Gwasanaethau, y Grŵp Gweithredu Gwelliant mewn Gwasanaeth a'r Bwrdd Polisi yn lleihau'r tebygolrwydd y bydd oedi cyn gweithredu. Fodd bynnag, mae angen i'r Awdurdod ystyried amseriad a strwythur y broses o gyflwyno adroddiadau ar berfformiad i sicrhau bod gwybodaeth ddiweddar ar gael ac y gellir cymryd camau unioni yn ôl yr angen.

68 Y ffordd bwysicaf o gyflwyno adroddiadau ar berfformiad i ddinasyddion lleol yw drwy'r cynllun gwella. Ym mis Hydref 2011 cyhoeddodd yr Awdurdod ei gynllun gwella (sef *Cynllun Gweithredu Blynyddol 2012-13*) a oedd yn cynnwys adran ar berfformiad yr Awdurdod yn 2010-11. Mae asesiad yr Awdurdod o'i berfformiad yn gryno iawn ac ond yn darparu diweddariad ar y camau a gymerwyd yn ystod 2010-11 o fewn y thema rheoli risg (roedd pob un o'i chwe amcan gwella yn y maes hwn). Nid yw'n amlwg o'r ddogfen a yw'r Awdurdod o'r farn ei fod wedi perfformio'n dda yn ystod 2010-11 ac, yn bwysig, lle nad yw wedi perfformio'n dda neu yn unol â'i ddisgwyliadau a'r hyn y mae'n bwriadu ei wneud ynghylch hyn. Mae'r Awdurdod yn bwriadu sicrhau bod Cynlluniau Gwella'r dyfodol yn fwy rhyngweithiol ac yn cynnwys cysylltiadau â gwybodaeth fanylach am berfformiad.

# Atodiadau



# Atodiad 1
# Statws yr adroddiad hwn

Lluniwyd yr adroddiad hwn gan yr Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 24 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur). Mae'r adroddiad hefyd yn cyflawni dyletswyddau o dan adran 19, i gyflwyno adroddiad sy'n tystio ei fod wedi cynnal asesiad gwella o dan adran 18 ac yn nodi a yw o'r farn, o ganlyniad i'w archwiliad o'r cynllun gwella o dan adran 17, fod yr awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran cynllunio gwelliant o dan adran 15.

Mae gan awdurdodau gwella ddyletswydd gyffredinol i 'wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni eu swyddogaethau'. Diffinnir awdurdodau gwella fel cynghorau lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

Prif waith Swyddfa Archwilio Cymru, i alluogi'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei ddyletswyddau, yw cynnal Asesiad Gwella blynyddol.

Caiff hyn ei lywio gan asesiad sy'n edrych i'r dyfodol o'r tebygolrwydd y bydd awdurdod yn cydymffurfio â'i ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus. Bydd hefyd yn cynnwys asesiad ôl-weithredol i nodi a yw awdurdod wedi cyflawni'r gwelliannau a gynlluniwyd ganddo er mwyn llunio barn ar hanes yr Awdurdod o ran sicrhau gwelliant.

O dan rai amgylchiadau gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd gynnal arolygiadau arbennig (o dan adran 21), y bydd yn cyflwyno adroddiad i'r awdurdodau a'r Gweinidogion perthnasol mewn perthynas â hwy, ac y gall eu cyhoeddi (o dan adran 22).

Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn crynhoi'r adroddiadau archwilio ac asesu yn yr Adroddiad Gwella Blynyddol cyhoeddedig hwn (o dan adran 24). Bydd yr adroddiad hwn hefyd yn crynhoi unrhyw adroddiadau ar arolygiadau arbennig.

Un o weithgareddau atodol pwysig Swyddfa Archwilio Cymru yw cydgysylltu gwaith asesu a rheoleiddio (sy'n ofynnol o dan adran 23), sy'n ystyried rhaglen waith gyffredinol pob rheoleiddiwr perthnasol mewn awdurdod gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd ystyried gwybodaeth a rennir gan reoleiddwyr perthnasol (o dan adran 33) yn ei asesiadau a bydd yr adroddiad hwn yn disgrifio i ba raddau y mae wedi gwneud hynny.

Mae'r adroddiad hwn hefyd yn crynhoi casgliadau'r Archwilydd Cyffredinol ar hunanasesiad yr Awdurdod o'i berfformiad.

# Atodiad 2
# Gwybodaeth ddefnyddiol am Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru

Mae'n rhaid i'r Awdurdod gyflawni'r holl ddyletswyddau a chyfrifoldebau yn unol â deddfwriaeth a rheoliadau priodol. Mae tri darn pwysig o ddeddfwriaeth yn ymwneud ag awdurdodau tân:

## Deddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004

Mae’r Ddeddf hon yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod tân wneud darpariaeth ar gyfer diffodd tanau, sydd hefyd yn golygu diogelu bywydau ac eiddo mewn achosion o dân yn ogystal â diffodd tanau. Mae hefyd yn darparu ar gyfer ymateb i wrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd ac achosion brys eraill yn ogystal â gweithgareddau diogelwch cymunedol.

## Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005

Daeth y Gorchymyn i rym ar 1 Hydref 2006, gan ddisodli dros 70 o ddarnau unigol o ddeddfwriaeth diogelwch tân. Diddymwyd y gofyniad i fusnesau feddu ar dystysgrifau tân. Mae'r Gorchymyn Diogelwch Tân yn gymwys i bob safle annomestig yng Nghymru a Lloegr, gan gynnwys rhannau cyffredin blociau o fflatiau a thai amlfeddiannaeth. Mae'n rhoi cyfrifoldeb i'r rhai sydd yn y sefyllfa orau i fynd i'r afael â diogelwch tân a sicrhau y caiff risgiau eu hadolygu'n barhaus. O dan y Gorchymyn mae'n ofynnol i'r Person Cyfrifol[4] gynnal asesiad risg tân a rhoi mesurau diogelwch tân priodol ar waith er mwyn sicrhau'r risg leiaf posibl i fywydau o ganlyniad i dân; a sicrhau bod yr asesiad yn gyfredol. Caiff y Gorchymyn ei orfodi gan Awdurdodau Tân ac Achub y disgwylir iddynt ddatblygu cyfundrefnau arolygu priodol yn seiliedig ar risg.

## Deddf Argyfyngau Sifil 2004

Mae'r Ddeddf yn darparu un fframwaith ar gyfer mesurau amddiffyn sifil yn y Deyrnas Unedig a all ateb heriau'r unfed ganrif ar hugain. Mae'r Ddeddf wedi'i rhannu'n ddwy; Rhan 1 sy'n diffinio rhwymedigaethau sefydliadau penodol i baratoi ar gyfer mathau amrywiol o argyfyngau a Rhan 2 sy'n darparu pwerau ychwanegol i'w defnyddio gan y Llywodraeth os bydd argyfwng difrifol.

O dan y Ddeddf caiff gwasanaethau tân ac achub eu diffinio'n Ymatebwyr Categori 1 ac fel y cyfryw mae ganddynt chwe dyletswydd benodol i'w cyflawni:

- asesu'r risg o argyfyngau a defnyddio'r wybodaeth hon i lywio gwaith cynllunio wrth gefn;
- rhoi cynlluniau argyfwng ar waith;
- rhoi trefniadau Rheoli Parhad Busnes ar waith;
- rhoi trefniadau ar waith i sicrhau bod gwybodaeth am faterion amddiffyn sifil ar gael i'r cyhoedd a chynnal trefniadau i rybuddio, hysbysu a chynghori'r cyhoedd mewn achos o argyfwng;
- rhannu gwybodaeth ag ymatebwyr lleol eraill er mwyn gwella'r broses gydgysylltu;
- cydweithio ag ymatebwyr lleol eraill er mwyn gwella prosesau cydgysylltu ac effeithlonrwydd.

4 Mae Cyfraith Diogelwch Tân a Dogfennau Canllaw i fusnesau Cymunedau a Llywodraeth Leol yn nodi bod y gyfraith yn berthnasol os ydych: yn gyfrifol am safleoedd busnes, yn gyflogwr neu’n hunangyflogedig â safleoedd busnes, yn gyfrifol am ran o annedd lle y defnyddir y rhan honno at ddibenion busnes yn unig, yn elusen neu’n sefydliad gwirfoddol, yn gontractiwr sydd ag elfen o reolaeth dros unrhyw safle, yn darparu llety i westeion sy’n talu.

Gosodir dyletswydd ychwanegol ar awdurdodau lleol sef:

- Rhoi cyngor a chymorth i fusnesau a sefydliadau gwirfoddol mewn perthynas â rheoli parhad busnes. Gellir galw ar wasanaethau tân ac achub lleol i gynorthwyo yn y rôl hon.

Mae sefydliadau Categori 2 yn cynnwys sefydliadau megis yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, cwmnïau trafnidiaeth a chwmnïau cyfleustodau. Bydd sefydliadau Categori 1 a 2 yn sefydlu Fforymau Cydnerthu Lleol (yn seiliedig ar ardaloedd yr heddlu) a fydd yn helpu ymatebwyr i gydgysylltu a chydweithio ar lefel leol.

Caiff yr Awdurdod ei ariannu'n uniongyrchol gan yr awdurdodau lleol cyfansoddol yn seiliedig ar yr etholwyr cofrestredig ym mhob ardal. Mae'n cynnwys 25 o gynghorwyr o'r chwe awdurdod cyfansoddol, sef.

Caiff nifer y cynrychiolwyr o bob awdurdod cyfansoddol ei phennu gan nifer yr etholwyr llywodraeth leol cofrestredig ym mhob ardal.

Y Cynghorydd Cheryl Philpott yw Cadeirydd yr Awdurdod Tân ar hyn o bryd.

Yr Awdurdod yw'r prif gorff ar gyfer llunio polisïau ac mae'n llywodraethu'r broses o fabwysiadu arferion gwaith amrywiol yn unol â chanllawiau statudol a gyflwynir gan Lywodraeth Cymru. Mae'n cyfarfod bob chwarter a chaiff ei gefnogi gan dri phrif bwyllgor, sef y Pwyllgor Adnoddau, y Pwyllgor Personél a'r Pwyllgor Adolygu ac Archwilio Perfformiad. Mae'r grwpiau hyn i gyd yn cyfarfod yn rheolaidd i ystyried materion o fewn eu meysydd cyfrifoldeb. Mae'r cyfarfodydd yn agored i'r cyhoedd, ac mae cofnodion o drafodion yr Awdurdod ar gael ar ei wefan.

Arweinir a rheolir y Gwasanaeth gan R Smith, y Prif Swyddog Tân, gyda chymorth y Bwrdd Gweithredol sy'n cynnwys y Prif Swyddog Tân a'r Prif Swyddogion sy'n arwain cyfarwyddiaethau gweithredol.

I gael rhagor o wybodaeth ewch i wefan yr Awdurdod yn www.mawwfire.gov.uk neu cysylltwch ag Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, Pencadlys yr Awdurdod, Heol Llwyn Pisgwydd, Caerfyrddin, SA31 1SP.

# Atodiad 3
# Llythyr Archwilio Blynyddol yr Archwilydd Penodedig at Aelodau Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru

Cyhoeddodd yr archwilydd a benodwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol adroddiad archwilydd fel a ganlyn ar 30 Tachwedd 2011.

Fel y gwyddoch, bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn cyhoeddi *Adroddiad Gwella Blynyddol* i bob awdurdod lleol erbyn diwedd mis Ionawr 2012 a bydd rhai o'r materion a nodwyd yn Llythyr Archwilio Blynyddol yr Archwilydd Penodedig yn draddodiadol yn cael eu cynnwys yn yr adroddiad hwnnw. Felly, rwyf wedi achub ar y cyfle i grynhoi'r negeseuon allweddol sy'n deillio o'm cyfrifoldebau statudol yn y llythyr byr hwn, sy'n ffurfio'r *Llythyr Archwilio Blynyddol.* Bwriedir i'r llythyr fod yn ddogfen annibynnol, ond caiff ei gyflwyno i'r Awdurdod a'r cyhoedd fel rhan o'r *Adroddiad Gwella Blynyddol* hefyd ac felly mae'n cyflawni fy nyletswyddau o ran cyflwyno adroddiad o dan y Cod Ymarfer Archwilio

## Cydymffurfiodd Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru â'r gofynion o ran cyflwyno adroddiadau ar ei berfformiad ariannol a'i ddefnydd o adnoddau

Cyfrifoldeb yr Awdurdod yw:

- rhoi systemau rheolaeth fewnol ar waith i sicrhau rheoleidd-dra a chyfreithlondeb trafodion a sicrhau bod ei asedau'n ddiogel;
- cadw cofnodion cyfrifyddu cywir;
- paratoi Datganiad Cyfrifon yn unol â gofynion perthnasol;
- sefydlu ac adolygu'n barhaus drefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau.

Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i mi:

- roi barn archwilio ar y datganiadau cyfrifyddu;
- adolygu trefniadau'r Awdurdod i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau;
- rhoi tystysgrif yn cadarnhau fy mod wedi cwblhau'r broses o archwilio'r cyfrifon.

Ar 30 Medi 2011 rhoddais farn archwilio ddiamod ar y datganiadau cyfrifyddu, gan gadarnhau eu bod yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa a thrafodion ariannol yr Awdurdod a'r Gronfa Bensiwn. Mae fy adroddiad wedi'i gynnwys yn y Datganiad Cyfrifon. Nodwyd nifer o faterion a oedd yn deillio o'r archwiliad o gyfrifon i aelodau yn fy Adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol.

O 2010/11, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol yng Nghymru lunio eu cyfrifon yn seiliedig ar Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS). Gosododd y safonau newydd hyn feichiau ychwanegol sylweddol ar staff cyllid yr Awdurdod. Er gwaethaf y pwysau ychwanegol hwn, paratowyd y cyfrifon erbyn y terfyn amser statudol. Fodd bynnag, gwnaed nifer o ddiwygiadau i'r cyfrifon drafft a roddodd bwysau gormodol ar yr amserlen.

Nodwyd y materion canlynol mewn perthynas â'r cyfrifon:

- Gwnaeth *Llythyr Archwilio Blynyddol* 2009-10 bwysleisio pwysigrwydd llunio mantolen agoriadol a chyfres ddrafft o gyfrifon Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol cyn gynted â phosibl. Mae nifer y datgeliadau coll a'r diwygiadau i'r Datganiad Cyfrifon yn dangos bod amserlen y prosiect ar ei hôl hi a bod mwy o waith na'r disgwyl. Fodd bynnag, o ganlyniad i gydweithio agos rhwng y tîm cyllid a'r tîm archwilio, llwyddwyd i gwblhau'r gwaith o fewn y terfynau amser.
- Effeithiodd yr oedi wrth lunio'r Datganiad Cyfrifon ar yr archwiliad o ddatganiad Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan, ac ni dderbyniwyd pecyn diwygiedig Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan oedd yn cynnwys y diwygiadau i'r datganiadau terfynol tan 20 Medi o ganlyniad i anawsterau wrth anfon y wybodaeth yn electronig. Ni chydymffurfiwyd â therfyn amser Llywodraeth Cymru ar gyfer cyflwyno datganiadau archwiliedig, sef 30 Medi, gan nad oedd digon o amser i gwblhau'r archwiliad.

Mae fy adolygiad o drefniadau'r Awdurdod i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn seiliedig ar y gwaith archwilio a wnaed ar y cyfrifon ac yn dibynnu ar y gwaith a gwblhawyd fel rhan o'r Asesiad Gwella o dan y Mesur Llywodraeth Leol (2009). Caiff prif ganfyddiadau'r gwaith olaf hwn eu nodi yn yr Adroddiad Gwella Blynyddol. Yn ogystal, tynnaf eich sylw at y materion canlynol:

- Mae'r Awdurdod wedi parhau i ddatblygu ei drefniadau ar gyfer gwaith cynllunio ariannol tymor canolig gan sicrhau ei fod mewn sefyllfa well i ateb ei heriau ariannol.

Cyhoeddais dystysgrif yn cadarnhau bod yr archwiliad o'r cyfrifon wedi'i gwblhau ar 30 Medi 2011.
Ar hyn o bryd, disgwylir i'r ffi archwilio ariannol ar gyfer 2010/11 fod yn unol â'r swm a nodir yn yr Amlinelliad o'r Archwiliad Blynyddol.

Yn gywir

Virginia Stevens

Dros ac ar Ran yr Archwilydd Penodedig

# Atodiad 4
# Amcanion gwella Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru

| Beth fyddwn yn ei wneud yn 2010-11[5] | Amcanion Gwella 2011-12[6] |
|---|---|
| **1 Gwella'r ffordd rydym yn cyrraedd aelodau o'r gymdeithas sy'n agored i niwed**<br><br>Mae ein gwaith diogelwch cymunedol wedi'i dargedu at yr unigolion sydd fwyaf agored i niwed mewn cymunedau, ond gwyddom na allwn gyrraedd pawb. Gwnaethom geisio barn ar sut y gallem wella'r ffordd rydym yn cyrraedd aelodau o'r gymdeithas sy'n agored i niwed.<br><br>Roedd ymatebwyr yn gefnogol iawn i'n hymdrechion i wella yn y maes gwaith hwn, a chadarnhaodd y sylwadau a gafwyd am nodi pobl sy'n agored i niwed fod strategaeth y Gwasanaeth yn y maes hwn yn unol â'u disgwyliadau ar y cyfan. Cynigiwyd y dylid atgyfnerthu cysylltiadau â sefydliadau partner sydd mewn cysylltiad rheolaidd â phobl sy'n agored i niwed a thargedu lleoliadau lle maent yn cwrdd, megis canolfannau dydd. Argymhellwyd hefyd y dylid codi ymwybyddiaeth o'r ystod o wasanaethau y gallwn ei darparu. | **1 Gwerth am Arian:**<br><br>Rhoi canlyniadau allweddol Rhaglen Adolygu Gwasanaethau 2010-11 ar waith er mwyn lleihau costau a darparu gwasanaethau'n fwy effeithlon. |
| **2 Rhannu ein cyfleusterau â'n cymunedau**<br><br>Mae gennym adeiladau ledled Canolbarth a Gorllewin Cymru ac rydym eisoes yn rhannu rhai o'r cyfleusterau hyn â'r gymuned leol a gwasanaethau brys eraill. Mae hyn yn ein galluogi i gydweithio a gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael. Mae'r adeiladau hyn yn adnodd gwerthfawr yn y gymuned ac yn helpu i hyrwyddo ein gwasanaethau, rhaglenni ymwybyddiaeth o ddiogelwch a gwaith eraill. Rydym am i'n gorsafoedd tân fod ar agor ac ar gael i'r cyhoedd, ond mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i ni ddatblygu ein safleoedd i'w gwneud yn addas i'w rhannu. Gwnaethom geisio barn ar ehangu a datblygu ymhellach y defnydd o'n cyfleusterau.<br><br>Cafwyd cefnogaeth aruthrol i bolisi'r Awdurdod o rannu ein cyfleusterau â chymunedau a gwasanaethau brys eraill. Pwysleisiwyd y gellid meithrin ein cysylltiadau ag eraill ymhellach drwy gydweithio, ond na ddylai effeithio ar y gwaith o redeg y Gwasanaeth o ddydd i ddydd. Cadarnhaodd hyn fod cefnogaeth i waith yr Awdurdod yn y maes hwn, a bydd hyn yn ein galluogi i ddatblygu ein cysylltiadau â gwasanaethau eraill ymhellach ac ehangu ein hystod o gyfleusterau cymunedol. | **2 Ymateb Brys:**<br><br>Mae trefniadau effeithiol o ran diogelwch a lles cyflogeion yn ein helpu i ateb yr heriau a wynebir mewn digwyddiadau brys a bydd trefniadau cadarn o ran hyfforddiant ac ymateb yn helpu i gyflawni hyn. |

5 Cynllun Gweithredu Blynyddol 2010-11 Cynllun Gwella 2009-10 - Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru.
6 Gweithredu Blynyddol 2011-12 - Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru.

| Beth fyddwn yn ei wneud yn 2010-11 | Amcanion Gwella 2011-12 |
|---|---|
| **3 Ymgysylltu â chymunedau**<br><br>Rydym eisoes yn ymgysylltu â chymunedau i sicrhau bod ein gwasanaethau'n atebol ac yn ffurfio rhan o'r broses leol o wneud penderfyniadau. Rydym yn hyrwyddo gweithgareddau diogelwch cymunedol ac yn codi ymwybyddiaeth y cyhoedd o bob agwedd ar ein gwaith yn weithredol. Gwnaethom geisio barn ar sut y gallem ymgysylltu'n fwy effeithiol i atgyfnerthu cysylltiadau â chymunedau, sicrhau bod dinasyddion wrth wraidd ein proses gynllunio ac ystyried eu barn yn fwy ar y gwasanaethau a ddarperir gennym.<br><br>Cafwyd cryn gefnogaeth i fwriad y Gwasanaeth i wella'r ffordd y mae'n ymgysylltu â chymunedau a gwnaed nifer o awgrymiadau o ran sut y gellid cyflawni hyn. Nodwyd y dylid cysylltu'n uniongyrchol â'r cyhoedd, megis drwy gynlluniau Diffoddwyr Tân Ifanc, presenoldeb mewn ysgolion, hyrwyddo digwyddiadau cymunedol a chyfarfodydd cynghorau lleol a chymunedol, yn ogystal â gweithio gyda phartneriaid eraill. Mae llawer o'r gweithgareddau a awgrymwyd, megis partneriaethau plant a phobl ifanc, eisoes yn rhan o'n gwaith craidd, ond dangosodd hyn fod ein cymunedau'n barod i ymgysylltu'n fwy â'r Gwasanaeth. | **3 Cydnerthu Cymunedau:**<br><br>Parhau i ddatblygu ein gallu i ymateb i ddigwyddiadau eithriadol sy'n effeithio ar ein cymunedau a'r Gwasanaeth drwy weithio gydag asiantaethau partner i ddatblygu ac ymarfer cynlluniau brys. |
| **4 Gwella Diogelwch ar y Ffyrdd**<br><br>Rydym eisoes yn gweithio gyda'n partneriaid i wneud pobl yn fwy ymwybodol o'r peryglon ar ein ffyrdd ac i wella diogelwch. Rydym hefyd wedi rhoi cyfarpar gwell ar bob un o'n cerbydau tân rheng flaen. Gwnaethom geisio adborth gan ein rhanddeiliaid ar beth arall y gallem ei wneud.<br><br>Roedd cryn gefnogaeth i'r gwaith y mae'r Awdurdod eisoes yn ei wneud i wella'r ffordd rydym yn galluogi ein staff i ddelio â damweiniau traffig ar y ffyrdd. Mae ein gwaith o addysgu pobl ifanc a grwpiau risg eraill, ein gwaith gyda phartneriaid, a threfniadau gwell o ran rhannu gwybodaeth hefyd yn cael eu cymeradwyo. Caiff yr ystod o fentrau cydweithio a chodi ymwybyddiaeth eu cyflwyno i'r fforymau y mae'r Gwasanaeth yn rhan ohonynt, yn lleol ac yn genedlaethol. | **4 Cynaliadwyedd a'r Amgylchedd:**<br><br>Gwnaethom gyhoeddi ein Strategaeth ar Gynaliadwyedd a'r Amgylchedd ym mis Mehefin 2009 gan nodi ein gweledigaeth ar gyfer sut y byddwn yn cyfrannu at yr agenda hon. |

| Beth fyddwn yn ei wneud yn 2010-11 | Amcanion Gwella 2011-12 |
|---|---|
| **5 Darparu Gwiriadau Diogelwch Tân yn y Cartref**<br><br>Cynhelir gwiriadau diogelwch tân yn y cartref gan ddiffoddwyr tân, asiantaethau partner a staff diogelwch cymunedol penodedig ar hyn o bryd. Credwn fod cyfle i wella yn y maes hwn o bosibl a gwnaethom ofyn i'n rhanddeiliaid am sylwadau.<br><br>Darparwyd sylwadau gwerthfawr a ddangosodd fod ein rhanddeiliaid o'r farn y gallem wella'r dull o ddarparu Gwiriadau Diogelwch Tân yn y Cartref. Awgrymwyd y gallem ddefnyddio ein partneriaid i nodi a chynnal gwiriadau ar ein rhan a rhoi cyhoeddusrwydd iddynt. Pwysleisiwyd ar y manteision o ddarparu Gwiriadau Diogelwch Tân yn y Cartref, yn ogystal â'r angen i barhau i fuddsoddi yn y maes hwn.<br><br>Cadarnhaodd yr ymatebion fod ein rhanddeiliaid yn cefnogi strategaeth yr Awdurdod yn y maes hwn ac y dylem barhau i fuddsoddi a gweithio'n agos gyda phartneriaid i gyflawni hyd yn oed fwy o ran diogelwch yn y cartref. | **5 Gweithio Mewn Partneriaeth:**<br><br>Datblygu ein gwaith partneriaeth strategol er mwyn sicrhau y caiff ein nodau o ran diogelwch cymunedol eu cyflawni. |
| **6 Lleihau tanau glaswelltiroedd bwriadol**<br><br>Mae tanau glaswelltiroedd a choedwigaeth bwriadol yn drech ar ein hadnoddau, yn peryglu ein diffoddwyr tân ac yn achosi niwed i'r amgylchedd. Rydym eisoes yn gweithio gyda chymunedau ac asiantaethau eraill, ond gwnaethom geisio barn ein rhanddeiliaid ar beth arall y gallem ei wneud i leihau'r tanau hyn.<br><br>Cydnabuwyd y gwaith sydd eisoes wedi'i wneud gan yr Awdurdod a'i bartneriaid i leihau tanau glaswelltiroedd, a nodwyd mai parhau â strategaethau addysg a gweithio gydag asiantaethau eraill yw'r ffordd orau ymlaen. Cydnabuwyd bod hyn yn broblem a'i fod yn cael effaith negyddol ar rai cymunedau. Dylid rhoi mwy o bwyslais ar drin tanau glaswelltiroedd yn fwy difrifol, gan gynnwys y cosbau am danau bwriadol, er mwyn newid agweddau at gynnau tân. | |

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@wao.gov.uk
Website: www.wao.gov.uk

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: info@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk